



# Trefn Gwasanaeth: Wythnos Cymorth Cristnogol

Cafodd y Trefn Gwasanaeth hwn ei ysgrifennu yng ngoleuni'r pandemig Coronafirws er mwyn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaeth ar-lein yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (Mai 10-16)

## I baratoi

- darllenwch ein taflen ar sut i gynnal gwasanaeth arlein Wythnos Cymorth Cristnogol ar [caweek.org/virtualresources](http://caweek.org/virtualresources)
- Ebstiwch y linc i'r Trefn Gwasanaeth at eich cynulleidfa er mwyn iddynt ei brintio neu ei lawr lwytho cyn y gwasanaeth - [www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance](http://www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance)
- defnyddiwch y Trefn Gwasanaeth mewn ffordd hyblyg – dewiswch y rhannau sy'n fwy perthnasol i'ch cymuned eglwys chi eich hun. Dim ond awgrym yw'r caneuon.
- mae'r gwasanaeth wedi cael ei lunio o amgylch tri o ddarlleniadau'r Llithiadur ar gyfer Sul Mai 10fed, pumed Sul y Pasg; Salm 31, 1 Pedr 2:2-10 ac Ioan 14:1-14.

## Cyflwyniad – Croeso i'n haddoliad.

Heddiw yw Sul cyntaf Wythnos Cymorth Cristnogol. Fel llawer o weithgareddau'r eglwys ar hyn o bryd mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn cael ei drefnu mewn ffordd wahanol ac yn ddigidol eleni. Yn ystod yr amser hwn efo'n gilydd cawn gyfle i ddarllen a gwranddo, i ganu a gweddïo, a chofio a chydabod ein bod yn rhan o gymuned byd-eang. Rydym yn gymdogion ymhell ac agos sy'n mynd drwy'r pandemig Coronafirws gyda'n gilydd. Boed i'r hyn a brofw'n gyda'n gilydd ein huno mewn mawl a gweddi fel un teulu dynol - ar wahân ond gyda'n gilydd ym myd Duw, ein cartref cyffredin.

(Dylai pawb ddarllen y geiriau mewn print bras,)

## Gweddi ymgynnull

**Duw'r Ddaear gyfan, bydd gyda ni nawr ymhob un o'n cartrefi wrth i ni gysylltu â'n gilydd. Adeilada ni yn dŷ ysbrydol, yn offeiriadaeth sanctaidd,, yn cynnig aberth mawl derbynol i ti, trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig a'n hiachawr. Amen**

## Emyn: Deuwn yn llon at orsedd Duw

Cyflwyniad i'r emyn – efallai ei bod yn rhyfedd canu'r geiriau Deuwn yn llon at orsedd Duw mewn cyfnod lle nad ydym yn cael dod gyda'n gilydd i'r eglwys – ond ar yr adeg hon yn fwy nag erioed dani'n dysgu nad adeilad mo'r eglwys ond ni – y bobl. Mae Pedr yn ei lythyr yn ein galw'n 'feini sanctaidd' Er ein bod arwahan gallwn dyfu ynghyd i fod yn dŷ ysbrydol lle mae cariad yn trigo ac yn cael ei fyw drwy ein bywydau bob dydd.

## Gweddi o gyffes a maddeuant

Cyflwyniad: sawl gwaith ydych chi wedi golchi eich dwylo heddiw? (rhannwch atebion pawb drwy'r 'chat' neu mewn trafodaeth) Dani'n dod â'n gweddïau o gyffes gan gofio pwysigrwydd defodol golchi dwylo yn y Beibl.

Mae'r weithred o olchi dwylo yn yr Ysgrythur yn cael ei gyplysu'n aml gyda diniweidrwydd ac ymolchi o bechod (Gw. Ecsodus 30:17-21, Salm 26:6, Job 9:30, Matthew 27:24, Iago: 4:8 fel rhai enghreifftiau.)

Efallai yr hoffech fynd â'ch dyfais at y sinc wrth i ni gyd-weddïo - neu dewch â phowlen o ddŵr, sebon a thywel i'ch ymyl ond nid rhy agos at eich cyfrifiadur! Fel arall gellwch ymuno a gwyllo'r ddefod o olchi dwylo (mae modd ei ddweud mewn 20 eiliad ond gall gymryd 30.)

**Wrth i ni agor y tap, agorwn ein calonnau i ti, O Arglwydd.**

**Wrth i ni wlychu ein dwylo, adnewyddu ein meddyliau er mwyn i ni gael ein trawsnewid.**

**Wrth i ni fwytho'r sebon rhwng ein bysedd a thros ein dwylo, golch ni rhag popeth all ein niweidio ni a niweidio eraill.**

**Symud ymaith yr euogrwydd cudd a'r cywilydd sydd mor aml yn ein gwahanu oddi wrthyt ti.**

**Ac wrth i ni rinsio ein dwylo, ymddiriedwn yn dy ras di sy'n gorlifo ac sy'n gwneud popeth yn newydd. Amen.**

## Cyflwyniad i'r darlleniad - Salm 31

Mae'r Llithiadur yn nodi saith adnod o'r salm hon ar ein cyfer heddiw ond gan fod geiriau'r Salmydd yn cyfleu cynifer o'r emosiynau'r ydym yn eu profi yn ystod y cyfnod anodd hwn fe gymerwn amser i ddarllen a gwranddo ar y Salm gyfan - 24 adnod. (gan ddibynnu ar y plattform a ddefnyddir gellid cael 9 llais gwahanol yn darllen pennill yr un h.y. adnodau 1-2, 3-5, 6-8, 9-10, 11-13, 14-18, 19-20, 21- 22, 23-24.)

### Saib i fyfyrion a gweddio (dewisol)

Oedd yna unrhyw adnodau neu ymadroddion wnaeth eich taro? Unrhyw ymadroddion sy'n help i chi yn y dyddiau dyrys yma? (gellir rhannu'r rhain yn y chat neu eu trafod. Dewch a'r cyfnod i ben gyda gweddi sy'n cydio'r themâu a'r pwyntiau gododd yn ystod y drafodaeth.

### Darlleniad o'r Efengyl Ioan 14:1-14

Cyflwyniad i'r darlleniad: mae hwn yn ddarn o'r ffarwel hir a roddodd Iesu dros y swper olaf ychydig wedi iddo olchi traed y disgyblion â'i ddwylo ei hun. Er ein bod bellach ar bumed Sul y Pasg, mae gan y geiriau yma ddwyyster a grym i'n nerthu a'n herio ar Sul Wythnos Cymorth Cristnogol. Gadewch i ni wrando ar Air Duw.

(Gofynnwch i rywun ddarllen John 14:1-14)

### Emyn: Distewch cans mae presenoldeb Crist

(Tawelwch)

**Pregeth** (mae nodiadau pregeth ar y ddau ddarlleniad ar gael o [caweek.org/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance](http://caweek.org/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance))

**Ymateb** – Edrychwch ar eich dwylo. Edrychwch yn ofalus.

Pa olwg bynnag sydd gennych o'ch dwylo, maent yn sicr o fod yn lân yn ystod y cyfnod hwn o olchi dwylo cyson i atal lleadaeniad y Coronafirws.

Mae ein dwylo'n wirioneddol ryfeddol - yn rhan annatod o gymaint o'r hyn a wnawn - a sut yr ydym yn gwneud pethau, hyd yn oed yn yr amser yma o bellhau cymdeithasol.

Mae'r Salmydd yn son am gyflwyno ei ysbryd i ddwylo Duw, ac am amserau yn llaw Duw. Mae hefyd yn disgrifio ei ddyhead i gael ei achub o ddwylo ei elynion ac o rwyd guddiedig sy'n bygwth ei ddal.

Mae ein dwylo'n bwysicach fyth yn y dyddiau hyn o bellhau cymdeithasol. Efallai ein bod yn dyheu am gael gafael yn llaw rhywun annwyl nad ydym yn cael cyffwrdd â hwy. Dani'n gweddio dros ddwylo meddygon i ddwyn iachâd a chysur. Dani'n ddiolchgar am ddwylo sy'n llenwi silffoedd ac sy'n dosbarthu nwyddau a phost. Ac rydym yn fwyfwy amheus o bopeth y mae ein dwylo'n eu cyffwrdd sy'n dod o'r tu allan i'n cartrefi.

Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon rydym hefyd yn ystyried sut na all ein dwylo fod yn segur. Er nad ydym yn dosbarthu amlenni nac yn gweini Brecwast Mawr na'r un o'r pethau eraill y byddwn yn arfer eu gwneud yr wythnos hon, gall ein dwylo barhau i estyn yn rhithiol at ein cymdogion ar draws y byd. Cymdogion mewn gwersylloedd ffoaduriaid ac mewn amgylchiadau byw cyfyng, cymdogion heb gyfleusterau digonol i olchi dwylo, cymdogion sy'n wynebu effeithiau dinistriol coronafeirws gyda llai fyth o adnoddau meddygol na'r hyn yr ydym ninnau wedi brwydro i'w cael yma.

Dani'n estyn allan gan roi ein dwylo at ei gilydd mewn gweddi dros ein cymdogion – a chan ddal ein dwylo'n agored gerbron Duw wrth i ni ddatgan ein hangen a'n consyrn dros eu lles hwy a'n lles ni'n hunain.

Dani hefyd yn estyn allan trwy gymryd rhan yn yr Wythnos Cymorth Cristnogol ddigidol trwy wneud cyfraniadau arlein a rhannu hanesion gan bartneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio ar lawr daear i fod yn ddwylo a thraed cariad ar waith. Os hoffech wneud cyfraniad i gefnogi cymunedau bregus gellwch wneud hynny arlein ar [caweek.org/payin](http://caweek.org/payin)

Gadewch i ni weddio gyda'n gilydd gan ddefnyddio'n dwylo agored.

### Gweddi o alar ac eiriolaeth.

Dduw ein noddfa, down atat gyda dwylo agored, rhai ohonom â chalonnau'n llawn cwestiynau, rhai ohonom wedi ein cleisio gan brofedigaeth, rhai ohonom yn bryderus am beth sydd o'n blaen, pob un ohonom wedi ein dychryn gan ddigwyddiadau'r flwyddyn hon. Tyrd yn agos atom yn awr ym mhob un o'n cartrefi wrth i ni osod ein cwestiynnau a'n gobeithion gonest i'th ddwylo agored, atgyfodedig a chreithiedig Di.

Dduw, yn dy drugaredd, **clwyw ein gweddi.**

Gyda gonestrwydd y salmydd, cwestiynnau dwfn, Job a galarnad y proffwydi down ger dy fron a'n cwestiynnau neu ein distawrwydd.

(Cydiwch yn eich bys pwyntio ac, mewn tawelwch gofynnwch y cwestiwn sydd drymaf ar eich calon neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Clyw gri ein calonnau, Arglwydd, yn dawel ac ar goedd, dros gymdogion sydd wedi colli anwyliaid ymhell ac agos. Cysura'r rhai sydd yn wynebu poen absenoldeb, a dal yn agos atat bawb sy'n dioddef ar eu pennau eu hunain. (Cydiwch yn eich bys canol a gweddiwch am gysur i'r rhai yr ydych yn eu hadnabod sydd mewn galar neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Yn y cyfnod hwn o Basg, adnewyddu ni gyda gobaiith yr atgyfodiad. Er i wylo barhau i'r nos, daw llawenydd yn y bore.

(Daliwch eich bys modrwy ac yn y tawelwch dywedwch wrth Dduw beth yw eich gobaiith pennaf i'r dyfodol neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Ar y Sul Wythnos Cymorth Cristnogol hwn, gweddiwn dros a gyda chymunedau ar draws y byd sydd fwyaf bregus i'r coronafeirws.

Gweddiwn dros bobl sy'n byw mewn gwerysulloedd ffoaduriaid a slymiau dinesig heb lawer o gyfleusterau hylendid. Rhai nad ydynt yn gallu golchi eu dwylo'n rheolaidd ac nad oes ganddynt fawr o gyfle i bellhau na hunan ynysu oddi wrth eraill.

Gweddiwn dros bartneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio i ddarparu sebon a bwcedi, i gyfathrebu gwybodaeth glir a chywir, i godi llais y mwyaf bregus a sicrhau eu bod yn cadw mor ddiogel ag sy'n bosibl.

(Daliwch eich bawd wrth i chi weddiö dros y mwyaf bregus, y rhai agosaf at galon Duw, neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Plant yn dod at ei gilydd mewn gwerysull ffoaduriaid gorlawn yn Bangladesh.

Dros y rheini ohonom sy'n hunan-ynysu, sy'n teimlo weithiau fel petaem yn gwneud dim, atgoffa ni ein bod i gyd yn gwneud ein rhan ac yn achub bywydau drwy aros adref.

(Cydiwch yn eich bys bach a gofynnwch i Dduw am yr hyn sydd ei angen arnoch neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Gweddiwn am ddoethineb ac adnoddau i'r rhai mewn awdurdod lleol a chenedlaethol i bob gweithiwr rheng flaen ac allweddol yma yn y DG, yr Iwerddon ac ar draws y byd.

(Dewch â'ch dwylo ynghyd a gweddiwch dros y gweithwyr rheng flaen a gwirfoddolwyr, a thros bartneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio i helpu eraill ar hyd a lled y byd neu eisteddwch mewn tawelwch gerbron Duw. Daliwch y tawelwch gyda'ch gilydd)

Dduw, yn dy drugaredd, **clwy ein gweddi**.

Fel yr ydym wedi curo dwylo i ddiolch iddynt, fe gurwn ein dwylo nawr mewn mawl o'th greadigaeth ryfeddol ac mewn gobaiith bod blagur gyntaf byd newydd posibl yn dod i'r golwg.

(Curwch eich dwylo mewn mawl at ogoniant cread Duw ac mewn gobaiith am bosibiliadau byd newydd.)

Dduw yn dy drugaredd, **clwy ein gweddiâu i gyd. Amen.**

**Emyn: Efengyl tangnefedd**

**Gweddi'r Arglwydd**

**Bendith i gloi**

Wrth i ni fynd yn ôl i'r byd go iawn a golchi'n dwylo eto, gadewch i ni rannu'r fendith gyda'n gilydd. Boed i bresenoldeb y Crëwr eich adfywio, boed i gysur y Mab eich adnewyddu, boed i ysbrydoliaeth yr Ysbryd eich adfer i fod yn gariad ar waith, hyd yn oed o bell, yn ein cymdogaeth, ymhell ac agos, y dydd hwn ac am byth, Amen

**Casgliad wrth adael**

Gellwch gyfrannu arlein yn [caweek.org/payin](http://caweek.org/payin)